**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru, Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 (1pm – 3pm)**

***Wales Association of SACREs*** **Annual General Meeting,** ***Mold, 25 June 2015 (1pm – 3pm)***

Minutes

DRAFT

| | |
|---|---|
| 1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 2 Gorffennaf 2014/ *Minutes of the Annual General Meeting held in Llandrindod, 2 July 2014*<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod | 1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gnhaliwyd yng Llandrindod ar 2 Gorffennaf 2014/ *Minutes of the Annual General Meeting held in Llandrindod, 2 July 2014*<br><br>The minutes were accepted as a true record of the meeting |
| 2. Materion yn Codi / *Matters Arising*<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi | 2. Materion yn Codi / *Matters Arising*<br><br>The were no matters arising |
| 3. Adroddiad CCYSAGauC am 2014-2015/ *WASACRE Report for 2014-2015*<br><br>Darllenodd Gavin Creigen drwy'r adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod. Nododd yr Aelodau ei gynnwys ac ni chafwyd sylwadau pellach. Bydd Libby Jones yn trefnu fod y ddogfen yn cael ei chyfieithu ac yn anfon copi dwyieithog i bob CYSAG. | 3. Adroddiad CCYSAGauC am 2014-2015/ *WASACRE Report for 2014-2015*<br><br>Gavin Craigen read through the report which was tabled at the meeting. Members noted its contents and had no further comments. Libby Jones will arrange for the translation of the document and circulate a bilingual copy to all SACREs. |
| 4. Adroddiad y Trysorydd / *Treasurer's Report*<br><br>Dywedodd y Trysorydd, John Mitson, wrth yr aelodau iddi fod yn flwyddyn dda i Gymdeithas CYSAGau Cymru. Ar hyn o bryd mae gan y Gymdeithas tua £5000 yn fwy nag oedd ganddi yr amser hwn y llynedd. Mae CCYSAGauC wedi symud o orwario i danwario, oherwydd na chafwyd cynhadledd eleni a hefyd bu llai o gyfieithu yn ystod 2014/15. Tâl arall nad yw CCYSAGauC yn gorfod ei dalu mwyach yw'r tanysgrifiad i RE News. Cadarnhaodd John Mitson fod y CYSAGau i gyd wedi talu eu tanysgrifiad blynyddol i CCYSAGauC eleni ac yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae hynna'n deyrnged i farn yr awdurdodau lleol am y gymdeithas hon. Nododd John hefyd fod llog y banc wedi mynd i lawr saith | 4. Adroddiad y Trysorydd / *Treasurer's Report*<br><br>Treasurer, John Mitson informed members that it has been a good year for WASACRE. The Association currently has about £5000 more than it did this time last year. WASACRE has moved from an over spend to an under spend, due to not having a conference this year, and there has been less translation during 2014/15. Another big outgoing that WASACRE no longer has to pay is the subscription to RE News. John Mitson confirmed that all SACREs have paid their annual subscription to WASACRE this year and in the current financial climate that is a tribute to the way local authorities view this organisation. John also noted that Bank interest has gone down by seven pence. |

| | |
|---|---|
| ceiniog. | |
| Cyfeiriwyd hefyd at y Datganiad o Gyfrifon a nodwyd fod llogi ystafelloedd yn un peth sy'n amrywio ynghyd â chyfieithu dogfennau, bob blwyddyn. Hefyd, bu cynnydd yn y tanysgrifiad i'r Cyngor Addysg Grefyddol eleni. Tynnodd John Mitson sylw at y swm anarferol a dalwyd i EFTRE eleni fel tanysgrifiad blynyddol. Roedd hyn oherwydd i'r anfoneb gael ei derbyn mewn Euros a'r anawsterau i'w thalu o'r pen hwn, a olygodd daliadau cyfnewid ychwanegol. Sicrhaodd John Mitson yr aelodau fod gan CCYSAGauC fantolen iach, sy'n gosod y Gymdeithas mewn lle da ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Bydd gan CCYSAGauC y cyfle i wneud y gweithgareddau y mae angen eu gwneud er mwyn hyrwyddo addysg grefyddol yng Nghymru a chodi proffil y Gymdeithas. Bydd Libby Jones yn trefnu i'r dogfen gael ei chyfieithu ac yn anfon copi wyieithog i'r CYSAGau. | The Statement of Accounts was also referred to and room hire was noted as a variable along with the translation of documents each year. Also, there has been an increase in the RE Council subscription this year. John Mitson commented that on the unusual figure paid to EFTRE this year for its annual subscription. This was due to the invoice being received in Euros and difficulties paying it from this end, which resulted in extra charges for exchange. John Mitson assured members that WASACRE has a healthy balance sheet putting the Association in a good position for the year ahead. WASACRE will have the opportunity to do the activities it needs to do in order to promote religious education in Wales and to raise the profile of WASACRE. Libby Jones will arrange for the translation of the document and circulate a bilingual copy to SACREs. |
| Derbyniwyd yr adroddiad gan yr aelodau, cynigiwyd gan Rheinallt Thomas ac eiliwyd gan Phil Lord. Diolchodd Gavin Creigen i'r Trysorydd, John Mitson, am ei waith gwerthfawr a'i gefnogaeth barhaus i'r Gymdeithas. | The report was accepted by members, proposed by Rheinallt Thomas and seconded by Phil Lord. Gavin Craigen thanked Treasurer, John Mitson for his valuable work and ongoing support for the Association. |
| Argymhellodd John Mitson i'r aelodau y dylid codi'r tanysgrifiad blynyddol i CCYSAGauC i adlewyrchu'r chwyddiant presennol. Ei gyngor oedd codi'r swm i £433.00 i bob awdurdod lleol, sef cynnydd o 2.5%. Derbyniodd yr aelodau gyngor y Trysorydd a hefyd ei argymhelliad fod costau teithio i gyfarfodydd yn dal i gael eu talu i'r aelodau. | John Mitson recommended to members that the annual subscription to WASACRE should be increased to reflect current inflation. His advice was to raise the amount to £433.00 per local authority, which is a 2.5% increase. Members accepted the Treasurer's advice and also accepted his recommendation that travel expenses should continue to be paid to members for meetings. |
| 5. Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / *Outgoing Chair's comments* | 5. Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / *Outgoing Chair's comments* |
| Yn absenoldeb Tania ap Sion, darllenodd Libby Jones sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol ar ei rhan. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ar ddiwedd y cofnodion. | In absence of Tania ap Sion, Libby Jones read out the Outgoing Chair's comments on her behalf. These are included at the end of the minutes. |
| Diolchodd Gavin i Tania am ei harweiniad a dywedodd ei bod, drwy ei chadernid bonheddig a'i phenderfyniad, wedi cyflawni llawer o bethau i'r | Gavin Thanked Tania for her leadership and commented that through her genteel firmness and determination she has achieved many things for |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Gymdeithas a bod CCYSAGauC yn ddiolchgar iddi am y gwasanaeth hwnnw. Cadarnhaodd Gavin y bydd Tania'n parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel Cadeirydd sydd Newydd Ymadael. Soniodd Gavin Creigen wrth yr aelodau fod Tania i gael ei Hordeinio ddydd Sadwrn, 27 Mehefin, ac mae dyna pam nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Llongyfarchwyd Tania ar gyflawni hyn. | the Association and WASACRE is grateful to her for that service. Gavin confirmed that Tania will continue for the Association on the Executive committee as Immediate Past Chair. Gavin Craigen shared with members that Tania is due to be Ordained on Saturday 27 June which is why she has not been able to attend this meeting. Members congratulated Tania for that achievement. |
| 6. Sefydlu'r Cadeirydd / Installation of Chairman | 6. Sefydlu'r Cadeirydd / Installation of Chairman |
| Gofynnodd Rheinallt Thomas yn ffurfiol i Gavin Creigen gymryd y Gadair. Derbyniodd Gavin. | Rheinallt Thomas formally asked Gavin Craigen to take the Chair. Gavin accepted. |
| **7.** Ethol Is-Gadeirydd / *Election of Vice-Chair* | 7. Ethol Is-Gadeirydd / *Election of Vice-Chair* |
| Eglurodd y Cadeirydd, Gavin Creigen, oherwydd mai dim ond un enwebiad a gafwyd i swydd yr Is-Gadeirydd, nad oedd angen pleidleisio. Croesawyd Phil Lord yn Is-Gadeirydd i CCYSAGauC. | Chair, Gavin Craigen explained that due to having one nomination for the position of Vice Chair no voting will take place. Phil Lord was welcomed as Vice chair to WASACRE. |
| 8. Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / *Election of members to the Executive* | 8. Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / *Election of members to the Executive* |
| Eglurodd Gavin Creigen, oherwydd bod dau enwebiad wedi'u derbyn i'r ddau le gwag ar y Pwyllgor Gwaith, nad oedd angen pleidleisio. Cyhoeddodd Gavin mai aelodau newydd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yw'r Cynghorydd Ernie Galsworthy a Ruth Davies, ac ychwanegodd ein bod yn edrych ymlaen at eu cefnogaeth a'u hymrwymiad. | Gavin Craigen explained that due to having two nominations for the two vacancies on the Executive committee no voting will take place. Gavin announced that the new Executive members to WASACRE are Cllr Ernie Galsworthy and Ruth Davies, and added that we look forward to their support and commitment. |
| 9. U.F.A. / A.O.B | 9. U.F.A. / A.O.B |
| Adroddodd Libby Jones nad oedd unrhyw fater arall | Libby Jones reported that there was no other business |
| 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date of next* meeting | 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date of next meeting* |
| Disgwylir i'r dyddiad gael ei gadarnhau gyda CYSAG Sir Ddinbych a fydd yn croesawu'r Cyfarfod Blynyddol nesaf. Bydd Libby Jones yn anfon y dyddiad a'r lleoliad cyn gynted ag y bo modd. | The date has still to be confirmed with Denbighshire SACRE who will be hosting the next AGM. Libby Jones will circulate the date and venue as soon as possible. |
| Diolchodd Gavin Creigen i Ian Budd, | Gavin Craigen thanked Ian Budd Chief Officer for Education in Flintshire for his welcome |

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog Addysg Sir y Fflint am ei araith groeso, a Ron Keating, Pennaeth Ysgol Richard Gwyn am fod yn bresennol ac am ddod â chôr yr ysgol i groesawu pawb i’r cyfarfod. Diolchodd Gavin hefyd i Paul Rowlinson am y cyfieithu. | speech, Ron Keating, Head of Richard Gwyn school for being present and for bringing the school choir to welcome us to the meeting. Gavin also thanked Paul Rowlinson for the translation. |

DRAFT